# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

**RHAN 3**

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

*Gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill*

VALID FROM 01/04/2023

**5 Darparwyr gofal sylfaenol: dyletswydd i lunio adroddiad**

(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i ddarparwr gofal sylfaenol lunio adroddiad o dan yr adran hon.

(2) Rhaid i'r adroddiad ddatgan a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn adrodd mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd gan y darparwr gofal sylfaenol.

(3) Os yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn adrodd, rhaid i'r adroddiad—

(a) pennu pa mor aml y mae hyn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn adrodd,

(b) rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau y daeth y ddyletswydd yn effeithiol odanynt, ac

(c) disgrifio unrhyw gamau a gymerwyd gan y darparwr gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

(4) Os yw'r darparwr gofal sylfaenol, yn ystod yr un flwyddyn ariannol, wedi darparu gofal iechyd ar ran dau neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol, mae adroddiad ar wahân i'w lunio o dan yr adran hon mewn cysylltiad â phob un o'r cyrff hynny.

(5) Yn yr adran hon ac adrannau 6 i 8—

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/03/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 5. (See end of Document for details)*

(a) mae cyfeiriadau at flwyddyn ariannol yn gyfeiriadau at bob cyfnod o 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

(b) mae cyfeiriadau at flwyddyn adrodd, mewn perthynas ag adroddiad, yn gyfeiriadau at y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/03/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 5.